PC 2322 MORRIS
Adran Drwyddedu
Isadran Canol y Gorllewin
Gorsaf yr Heddlu
Stryd Brackla
Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 1BZ

Dydd Iau 13 Mehefin, 2019

Yr Adran Gwasanaethau Cyfreithiol
Gwasanaethau Corfforaethol
**Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**
Stryd yr Angel
Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 4WB

## Adolygiad o'r polisi Effaith Gronnol

### Beth yw Effaith Gronnol?

Ni chaiff "effaith gronnol" ei chrybwyll yn benodol yn Neddf 2003. Mae'n golygu'r effaith botensial ar hyrwyddo amcanion trwyddedu nifer sylweddol o safleoedd trwyddedig sydd wedi'u canoli mewn un ardal.

Disgrifir problemau sy'n digwydd o ganlyniad i effaith gronnol fel niferoedd mawr o bobl yn cael eu canoli mewn un ardal, er enghraifft, wrth adael y safleoedd yn ystod amserau prysur neu wrth giwio mewn canolfannau bwyd cyflym neu am gludiant cyhoeddus.

Mae crynodiadau mawr o bobl yn destun gofid mewn Ardal Effaith Gronnol, oherwydd gallen nhw hefyd gynyddu'r achosion o anhrefn neu weithgareddau troseddol ar y strydoedd. Hwyrach na all gwasanaethau lleol fel gwasanaethau cludiant cyhoeddus, y ddarpariaeth toiledau cyhoeddus a glanhau strydoedd fodloni'r galw a gyflwynir gan y fath grynodiadau o bobl gan arwain at broblemau fel baeddu ar y strydoedd, sbwriel, traffig a niwsans cyhoeddus a achosir gan grynodiadau o bobl sy'n methu cael eu gwasgaru'n effeithiol o gyflym.

Dyma'r rhesymau am roi Polisïau Effaith Gronnol ar waith a'r rhain felly yw'r mathau o effeithiau y dylid eu harchwilio wrth ystyried ceisiadau newydd mewn ardaloedd Polisïau Effaith Gronnol.
Mae Canllawiau adran 182 hefyd yn ei gwneud hi'n glir y dylid cael sail dystiolaeth ar gyfer y penderfyniad i gynnwys 'polisi arbennig' yn natganiad y polisi trwyddedu.

**Prif ganfyddiadau**
Comisiynwyd yr adroddiad er mwyn astudio'r lefelau troseddau ac achosion yn y strydoedd canlynol sy'n ffurfio rhan o'r Ardal Effaith Gronnol yng Nghanol Tref Pen-y-bont ar Ogwr, a dynodi a fu cynnydd ers agor y safle newydd ar 31 Gorffennaf 2015 yn Market Street.

- Market Street
- Heol y Dderwen
- Stryd Wyndham
- Stryd Nolton

Mae cyfanswm nifer y digwyddiadau a adroddwyd wedi bod yn dirywio yn ystod cyfnod y dadansoddiad, ond rhaid i ni ystyried bod tri safle trwyddedig bellach wedi'u cau a fyddai'n effeithio ar y dadansoddiad.
Er y cafwyd dirywiad yn nifer fawr o feysydd y canfyddiadau, mae Heddlu De Cymru'n parhau i gefnogi'r polisi Ardal Effaith Gronnol oherwydd byddai tynnu polisi o'r fath ymaith yn cael effaith negyddol ar yr amcanion Trwyddedu.

Atal trosedd ac anhrefn
Diogelwch y cyhoedd
Atal niwsans cyhoeddus
Amddiffyn plant rhag niwed

Mae'r ardal ddaearyddol gymharol fach hon yn orlawn o safleoedd trwyddedig o hyd. Mae dau safle yn yr ardal hon gyda thrwydded hyd at 4am ac un safle gyda thrwydded hyd at 4.30am sy'n darparu lefel uchel o ymwelwyr yn ystod yr oriau mân hyn.

**Casgliad**
Mae Heddlu De Cymru'n cefnogi'r defnydd parhaus o bolisi Ardal Effaith Gronnol yng nghanol tref Pen-y-bont ar Ogwr.
Yn ei hanfod, mae hyn wedi creu rhagdybiaeth amodol fod ceisiadau am drwyddedau i safleoedd newydd neu amrywiadau'n debygol o effeithio ar y pedwar amcan trwyddedu.
Mae goblygiadau polisi'r Ardal Effaith Gronnol yn hanfodol pan fo Heddlu De Cymru wedi gwneud sylwadau yn erbyn ceisiadau am drwyddedau newydd neu amrywiol.
O ystyried hyn, mae hyn wedi cael effaith uniongyrchol ar ostwng troseddau a gofnodir yng nghanol y dref a'r adroddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Cyflwynir yr adroddiad hwn gydag awdurdodiad y swyddog sy'n cyflwyno, i'w gynnwys yn y ddogfen am ymgynghoriad cyhoeddus ar adolygiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor.

Yn gywir

PC 2322 Darren MORRIS
Darren.morris@south-wales.pnn.police.uk
Trwyddedu
Pen-y-bont ar Ogwr